45 - 60 mun

12

# Ditectifs y Traeth

## Yr offer sydd ei angen

- Rhywbeth i grwpio gwrthrychau (e.e. cylchau hwla)
- Menyg
- Bagiau bin
- Codwyr sbwriel (dewisol)

## Ar y traeth

1. Rhannwch y dosbarth i grwpiau. Ewch drwy'r briff diogelwch. Gwelwch isod rai pwyntiau i'w crybwyll:
   - Cadwch yng ngolwg yr oedolion bob amser
   - Byddwch yn ymwybodol o'r llanw'n troi
   - Gwisgwch fenig bob amser a pheidiwch â chodi gwydr wedi torri, nodwyddau neu unrhyw beth nad ydych yn siŵr ohono

2. Cefnogwch y dysgwyr i greu ardal drefnu ar y traeth. Gofynnwch i'r dysgwyr i godi cymaint o sbwriel ag y gallant, yna dod ag ef yn ôl i'r ardal drefnu a'i ddosbarthu i grwpiau gwahanol, yn ôl ei fath e.e. poteli, bagiau ac offer pysgota.

3. Trafodwch beth yw popeth, sut y bu iddo gyrraedd y môr, a'r hyn y gellid ei wneud i wella'r sefyllfa. **Gweler isod enghreifftiau o beth allech chi ddod o hyd iddynt i helpu gyda'r drafodaeth.**



**Nyrdl -** peledi bach o blastig yw nyrdls. Dyma'r defnydd crai y mae cwmnïau'n ei ddefnyddio i gynhyrchu nwyddau plastig. Maent yn cyrraedd traethau pan fo cynwysyddion yn cael eu colli dros fwrdd llongau wrth iddynt gael eu danfon ar draws y byd. Gallant hefyd cael eu golchi i lawr yr afon o safleoedd diwydiannol ac i mewn i'r môr.



**Weipiau gwlyb a chynhyrchion mislif** - mae'r rhain yn cael eu rhoi i lawr y toiled, ond mewn gwirionedd mae'r rhan fwyaf wedi'u gwneud o blastig ac nid ydynt yn pydru.



**Sbwriel pysgota** - mae rhwydi, bocsys, tagiau, fflotiau a leiniau oll wedi'u gwneud o blastig ac maent yn cyrraedd y môr lle maen nhw'n parhau i ddal bywyd morol yn anfwriadol. Cadwch lygad am dagiau cimwch o'r Unol Daleithiau a Chanada. Gallwch gofnodi rhifau'r tag a'u gyrru i'r Gymdeithas Gadwraeth Forol.




**Balwnau** - mae'r rhain yn cael eu rhyddhau ar ddamwain neu ar gyfer digwyddiadau elusennol neu digwyddiadau coffa. Yn aml maent yn byrstio gan fynd i'r môr lle nad ydynt yn pydru, lle gall gael ei gamgymryd gan anifeiliaid am fwyd.



**Barbeciw tafladwy a phecynnu bwyd** - yn aml mae'r rhain yn cael eu gadael ar y traeth gan dwristiaid.




**Pecynnu plastig** - weithiau gallwch ddod o hyd i becynnu plastig gyda hen ddyluniadau gan fod y sbwriel wedi bod yn arnofio yn y cefnfor am flynyddoedd.